

Anesthetigion – risgiau a sgil-effeithiau **Niwed i ddannedd, i'r gwefusau ac i'r tafod**

Ynglŷn â'r daflen hon

Mae'r daflen hon yn trafod **niwed sy'n gallu digwydd i'ch dannedd, i'ch gwefusau ac i'ch tafod** os fyddwch chi'n cael anesthetig cyffredinol. Mae'n egluro sut y gallai'r niwed hwn ddigwydd a beth y gellir ei wneud yn ei gylch.

Mae anesthetigion cyffredinol yn feddyginiaethau sy'n achosi cyflwr tebyg i gwsg dwfn. Maen nhw'n hanfodol ar gyfer rhai llawdriniaethau a thriniaethau. Yn ystod anesthetig cyffredinol, rydych chi'n anymwybodol ac yn teimlo dim.

Mae rhagor o wybodaeth am wahanol fathau o anesthetigion ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.

Niwed i ddannedd, i'r gwefusau ac i'r tafod yn ystod anesthetig

Weithiau, efallai y bydd toriadau bach neu gleisiau ar eich ceg a'ch gwefusau ar ôl cael anesthetig. Mae'r rhain fel arfer yn gwella o fewn ychydig ddyddiau.

Gall dannedd gael eu torri, eu gwneud yn fwy rhydd neu weithiau ddod allan ar ddamwain yn ystod anesthetig cyffredinol.

Yn ystod anesthetig cyffredinol, mae cyhyrau eich corff yn ymlacio, gan gynnwys y rhai o amgylch eich gwddf a'ch brest. Gall hyn leihau faint o aer sy'n mynd i mewn i'ch ysgyfaint.

Er mwyn sicrhau llif parhaus o ocsigen i'ch ysgyfaint, efallai bydd yr anesthetydd yn gosod tiwb yn eich gwddf i gadw eich llwybr anadlu ar agor. Fel arfer, mae'n gwneud hyn ar ôl i chi fynd yn anymwybodol.

Gall y tiwbiau neu'r masgiau y mae eich anesthetydd yn eu defnyddio tra byddwch chi'n anymwybodol achosi niwed i'ch dannedd, i'ch gwefusau ac i'ch tafod ar ddamwain. Mae'r offer hwn yn angenrheidiol i'ch cadw chi'n ddiogel yn ystod yr anesthetig.


Mae rhagor o wybodaeth am eich llwybr anadlu a'ch anadlu yn ystod anesthesia ar gael mewn ieithoedd gwahanol ar ein gwefan:

www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages.

Pa mor debygol yw hi y bydd hyn yn digwydd?

Toriadau neu gleisiau bychain ar y gwefusau a'r tafod

O bob 100 o bobl



1-5 wedi profi hyn

95-99 heb brofi hyn

Niwed i ddannedd sy'n peri bod angen sylw deintyddol

O bob 10,000 o bobl



Roedd dannedd a deintgig mwy na hanner y bobl a brofodd niwed i'r dannedd mewn cyflwr gwael cyn y llawdriniaeth.

Daw'r rhifau hyn o astudiaethau ymchwil. Gallwch weld ar ein gwefan o ble mae ein rhifau'n dod: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/risks/evidence.

Oes unrhyw beth yn gwneud hyn yn fwy tebygol?

Mae niwed yn fwy tebygol os:

- dydych chi ddim yn gallu agor eich ceg yn llydan iawn neu symud eich gwddf yn hawdd. Er enghraifft, gall rhai cyflyrau arthritis ei gwneud hi'n anodd symud eich gwddf neu osod eich pen yn y lle cywir yn ystod anesthetig cyffredinol
- yw eich dannedd uchaf yn amlwg iawn neu os yw eich gênn isaf yn fach
- oes angen i chi gael anesthetig cyffredinol mewn argyfwng
- oes angen i chi gael toriad Cesaraidd brys gydag anesthetig cyffredinol
- ydych chi byw gyda gordewdra neu os oes pwysau ychwanegol o amgylch eich gwddf
- ydych chi'n cael llawdriniaeth ar eich ceg, gwddf, gênn neu bibell fwyd (oesoffagws).

Beth sy'n gallu helpu i osgoi hyn

Mae yna bethau y gallwch chi eu gwneud eich hun i leihau'r risg o niwed i'ch dannedd cyn y llawdriniaeth.

Os oes gennych chi ddannedd rhydd neu os yw eich deintgig yn boenus neu'n gwaedu pan fyddwch chi'n eu brwsio, dylech ymweld â'ch deintydd cyn gynted ag y byddwch chi'n gwybod bod angen llawdriniaeth arnoch chi.

Dywedwch wrth eich anesthetydd os:

- oes gennych chi ddannedd rhydd neu unrhyw broblem arall gyda'ch dannedd a'ch deintgig
- oes gennych chi ffrâm ddannedd sy'n gallu cael ei thynnu neu fandiau elastig
- oes gennych chi fewnblaniadau deintyddol, coronau, pontydd, argaenau neu ddannedd gosod
- oes gennych chi dyllau gemwaith yn y tafod neu'r gwefusau.

Dywedwch wrth eich anesthetydd os ydych chi wedi cael anesthetig cyffredinol yn y gorffennol ac:

- wedi cael gwybod ei bod yn anodd gosod tiwb yn eich llwybr anadlu
- wedi cael niwed i'ch dannedd.

Weithiau gall eich anesthetydd archwilio eich cofnodion meddygol er mwyn deall beth achosodd yr anawsterau ac osgoi achosi niwed eto.

Beth os fydd fy nannedd yn cael eu niweidio?

Bydd eich anesthetydd yn rhoi gwybod i chi os bydd eich dannedd wedi cael eu niweidio yn ystod y llawdriniaeth. Os bydd rhai dannedd wedi dod allan, bydd yn eu rhoi'n ôl i chi. Bydd yn rhoi cyffuriau lladd poen i chi os bydd angen ac yn rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud.

Mae gan rai ysbytai lawfeddygon deintyddol sydd yn gallu archwilio'r niwed a gwneud atgyweiriadau. Os nad yw hyn ar gael, gallwch ymweld â'ch deintydd eich hun ac yna hawlio'r costau gan yr ysbyty. Dylech holi eich ysbyty ynglŷn â'u polisi ar niwed i ddannedd yn ystod llawdriniaeth a gofyn am ffurflen ar gyfer hawlio'r gost.

Os cafodd eich anesthetydd drafferth rhoi tiwb yn eich gwddf neu os cafodd eich dannedd eu niweidio, gofynnwch am gofnod ysgrifenedig o beth ddigwyddodd. Gallai'r wybodaeth hon achub eich bywyd os bydd angen anesthetig arall arnoch chi yn y dyfodol.

Mae'r Gymdeithas Llwybrau Anadlu Anodd (DAS) yn rhedeg cynllun Cerdyn Rhybudd Llwybr Anadlu. Gall eich anesthetydd eich cyfeirio at y cynllun. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://das.uk.com/dar>.

Ymwadiad

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfredol, ond ni allwn warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ymdrin â'r holl gwestiynau a allai fod gennych nac ymdrin â phopeth a allai fod yn bwysig i chi. Dylech drafod eich dewisiadau ac unrhyw bryderon sydd gennych chi â'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid trin y daflen hon ar ei phen ei hun fel cyngor. Ni ddylid ei defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol neu fusnes. I weld yr ymwadiad llawn, ewch i:

www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh.

Caiff pob cyfieithiad ei ddarparu gan gymuned cyfieithwyr Translators without Borders. Caiff ansawdd y cyfieithiadau hyn ei wirio er mwyn sicrhau eu bod mor gywir â phosibl, ond gallai fod gwallau a gallai peth gwybodaeth gael ei chamddehongli.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG

www.rcoa.ac.uk

Chweched Argraffiad, Tachwedd 2024

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

© 2024 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.